## Olew Arforol – Mantolen – Doc Pysgod Caergybi ac Amlwch

Amlinellir yn y tabl isod, sefyllfa ariannol Amlwch a Chaergybi ac mae'n ymwneud â chyfnod o 6 mlynedd o 2009-10 i 2014-15.

Caiff Stoc Olew yn gyffredinol ei gategoreiddio fel ased cyfredol yn y mantolenni ac o'r herwydd mae iddo oes o flwyddyn neu lai gan olygu y gellir yn rhwydd ei droi'n arian.

Roedd gwerth yr asedau cyfredol o ran olew arforol yn y fantolen ar 31.03.2015 yn £19,328.00 yn achos Caergybi, ac roedd balans Amlwch ar adeg cau'r cyfrifon yn £7,040.00.

Mae'r tabl hefyd yn dangos y symudiad rhwng refeniw a'r fantolen ar adeg siecio'r stoc ar ddiwedd y flwyddyn. Mae symudiad credyd ar gyfer y gwasanaeth (yn arbennig ers yr ad-drefnu yn 2013-14) yn nodi nad oes ond ychydig neu ddim o gwbl o symiau i'w dileu i refeniw oherwydd gollyngiadau, amrywiad o ran yr olew a ddosbarthwyd, olew nad oedd modd ei ddefnyddio neu ladrad. Yn 2011-12 gwelwyd symudiad o ran balans debyd yn achos Amlwch a Chaergybi ac mae arwyddion y bu'n rhaid dileu rhai symiau.

Mae'n bwysig nodi, yn gyffredinol, pan eir ati i siecio stoc yn ffisegol, bod y mwyafrif o wasanaethau yn wynebu gorfod dileu rhai elfennau oherwydd y rhesymau uchod.

**Tabl 1**

**Dadansoddiad o'r Fantolen mewn perthynas â Stoc Olew Arforol dros gyfnod o 6 blynedd ar gyfer Caergybi ac Amlwch**

| | Caergybi | | | Amlwch | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **Balans Agoriadol** | **Balans Cau** | **Symudiad** | **Balans Agoriadol** | **Balans Cau** | **Symudiad** |
| 2009-10 | 8,896.25 | 20,664.55 | -11,768.30 | 990.00 | 10,620.00 | -9,630.00 |
| 2010-11 | 20,664.55 | 20,158.51 | 506.04 | 10,620.00 | 14,301.58 | -3,681.58 |
| 2011-12 | 20,158.51 | 10,241.26 | 9,917.25 | 14,301.58 | 12,918.36 | 1,383.22 |
| 2012-13 | 10,241.26 | 15,935.15 | -5,693.89 | 12,918.36 | 6,191.25 | 6,727.11 |
| 2013-14 | 15,935.15 | 4,228.65 | -3,293.50 | 6,191.25 | 6,248.00 | -56.75 |
| 2014-15 | 4,228.65 | 19,328.00 | -99.35 | 6,248.00 | 7,040.00 | -792.00 |
| | 80,124.37 | 90,556.12 | -10,431.75 | 51,269.19 | 57,319.19 | -6,050.00 |